Polisi Derbyn

Yn rhan-amser ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed ac yn llawn amser ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.

Yn unol â pholisi Awdurdod Addysg Gwynedd, bydd angen cofrestru pob cais erbyn Ebrill 1af a chyn diwedd Mawrth anfonir gwybodaeth yn cadarnhau, neu beidio, bod lle i'r plentyn yn yr ysgol.

Mae modd i rieni gwneud cais ar-lein trwy
www.gwynedd.gov.uk/mynediadysgolion neu www.gwynedd.gov.uk/schooladmissions

Bydd yn rhaid i rhieni bob plentyn yn y Dosbarth Meithrin eleni gyflwyno cais o'r newydd am fynediad i'r Flwyddyn Derbyn ym Medi 2013. Bydd yr Adran Addysg yn ymdrin â'r holl geisiadau am fynediad i'r Blynyddoedd Meithrin a Derbyn yn unol â'r meini prawf a nodir yn y Polisi Mynediad.

Tua diwedd tymor yr haf gwahoddir y plant i'r ysgol am brynhawn er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd. Teimlir bod hyn yn lleihau eu gofid ac yn eu helpu i edrych ymlaen at ddechrau eu gyrfa yn yr ysgol.